Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru: cais am grant

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 01 Medi 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/44 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru<br>Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol<br>Sefydliadau Elusennol a Di-elw<br>Sefydliadau'r Sector Cyhoeddus<br>Partneriaethau Cydweithredol a Chonsortia |
| **Ymateb erbyn:** | **Cam 1**: 02 Hydref 2026, **Cam 2**: 31 Rhagfyr 2026 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | CaisGrantPrentisiaeth@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth i sefydliadau sy'n dymuno gwneud cais am y grant Rhaglen Brentisiaethau newydd yng Nghymru, sydd i ddechrau ym mis Awst 2027.

Mae'n nodi gofynion y rhaglen, y broses ymgeisio a'r trefniadau asesu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn nogfennau canllaw ategol y rhaglen.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Cynnwys

Cyflwyniad ....... 2
Y Cefndir ....... 2
Beth yw'r egwyddorion dylunio ....... 2
Beth yw diben y Rhaglen Brentisiaethau newydd? ....... 3
Beth yw strwythur y Rhaglen Brentisiaethau? ....... 3
Beth yw camau'r broses ymgeisio am grant? ....... 5
Sut mae ymgeisio? ....... 6
Pa sefydliadau a all ymgeisio? ....... 6
Faint o ddarparwyr fydd yn derbyn grant? ....... 6
Beth yw'r rhanbarthau? ....... 7
Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau? ....... 8
I le y dylid anfon y cais? ....... 8
Pryd fyddwn ni'n cael gwybod y canlyniad? ....... 8
Beth yw'r meini prawf asesu? ....... 8
Pryd fydd y grant yn cael ei ddyrannu? ....... 9
Beth yw'r broses apelio? ....... 9
Ymhle y gellir cael gwybodaeth bellach? ....... 9

**Atodiadau**

Atodiad A - Ffurflen Cais am Grant

Atodiad B - Canllaw ar Raglen Brentisiaethau Graidd Elfen 1

Atodiad C - Canllaw ar Raglen Prentisiaethau Gradd Elfen 2

Atodiad D - Canllaw ar Raglen Prentisiaethau â Chymorth Elfen 3

Atodiad E - Fframwaith Asesu a Sgorio

Atodiad F - Proses Apelio Ceisiadau Grant

Atodiad G - Fframweithiau Sector a Llwybrau Prentisiaeth

Atodiad H – Rhestr termau

## Cyflwyniad

1. Y cyhoeddiad hwn yw'r brif ffynhonnell o ganllawiau i sefydliadau sy'n dymuno cymryd rhan yn y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru. Mae'n nodi gofynion y rhaglen, y broses ymgeisio a'r trefniadau asesu, ac mae manylion pellach ar gael yn nogfennau canllaw ategol y rhaglen.

2. Dylai darparwyr ddarllen y ddogfen hon yn llawn cyn paratoi cais, gan ei bod yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen i ddeall gofynion y rhaglen a'r sail y bydd ceisiadau'n cael eu hasesu arni.

## Y Cefndir

3. Mae prentisiaethau'n chwarae rhan hanfodol er mwyn cefnogi twf yr economi, cynyddu cynhyrchiant, mynd i'r afael â phrinder o fewn y gweithlu a chreu cyfleoedd i unigolion gael mynediad at gyflogaeth, symud ymlaen a llwyddo yn hynny. Maent hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at amcanion polisi cyhoeddus ehangach, gan gynnwys symudedd cymdeithasol, datblygiad economaidd rhanbarthol, y Gymraeg, cyfle cyfartal a'r newid i economi fwy gwyrdd.

4. Yn y gorffennol, mae darpariaeth prentisiaethau yng Nghymru wedi cael ei chomisiynu drwy ddull caffael, gan ddyfarnu contractau i rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant yn dilyn ymarferion tendro cystadleuol. Er bod y model hwn wedi bod o gymorth i ddatblygu rhwydwaith aeddfed o ddarparwyr, ac wedi bod yn fodd i gyflwyno cyfleoedd prentisiaeth ledled Cymru, mae Medr yn cydnabod bod angen ymagwedd fwy hyblyg ac ymatebol ar gyfer tirlun sgiliau'r dyfodol.

5. Yn sgil sefydlu Medr, cafwyd cyfle i ailddylunio'r modd y gweinyddir cyllid prentisiaethau, gan symud o fodel o brynu contractau tuag at fodel partneriaeth a ariennir drwy grantiau, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio, ymatebolrwydd a gwelliant parhaus.

## Beth yw'r egwyddorion dylunio

6. Mae dyluniad y rhaglen brentisiaethau wedi'i seilio ar ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a gwersi a ddysgwyd o drefniadau comisiynu prentisiaethau blaenorol. Mae sawl egwyddor allweddol wedi llywio datblygiad y rhaglen:

- Rhaglen i bob oed (16 oed a hŷn).
- Yn darparu prentisiaethau o ansawdd uchel o lefel 2 i lefel 6.
- Yn ymateb i newidiadau i'r galw am sgiliau ar draws yr economi ac i anghenion rhanbarthol o ran sgiliau.
- Yn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau, gan gynnwys ymateb i dechnolegau sy'n newid a sgiliau gwyrdd.
- Yn bodloni anghenion dysgwyr a chefnogi eu dilyniant drwy'r system addysg drydyddol ac i mewn i'w gyrfa ddewisol a thrwy gydol yr yrfa honno.
- Hyblyg ac ymatebol, gan sicrhau bod y cymwysterau a'r sgiliau cywir yn cael eu darparu i fodloni anghenion cyflogwyr, dysgwyr a'r economi.

- Yn darparu prentisiaethau cynhwysol sy'n hygyrch i ddysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig ac sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Yn cynyddu cyfleoedd i bob prentis ddatblygu, cynnal a defnyddio eu sgiliau Cymraeg drwy gydol eu hyfforddiant a'u cyflogaeth, gan eu galluogi i gyfrannu at weithlu sy'n gynyddol ddwyieithog.
- Yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel sy'n cryfhau deilliannau a chyrhaeddiad dysgwyr.

**Beth yw diben y Rhaglen Brentisiaethau newydd?**

7. Diben y Rhaglen Brentisiaethau yw sicrhau darpariaeth prentisiaethau o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr ac economi Cymru yn y presennol a'r dyfodol.

8. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i gefnogi darparwyr a all ddangos y gallu trefniadol, yr arweinyddiaeth, y gwydnwch ariannol a'r capasiti darparu sydd ei angen i weithredu fel partneriaid strategol o fewn system addysg drydyddol Cymru.

9. Mae'r rhaglen yn cydnabod bod anghenion o ran sgiliau yn esblygu'n barhaus. Mae technolegau sy'n dod i'r amlwg, newid demograffig, trawsnewid economaidd, datgarboneiddio, diwygio gwasanaethau cyhoeddus a'r newid yn y galw ymhlith cyflogwyr oll yn mynnu system brentisiaethau a all addasu dros amser. Gan hynny, mae'r model grantiau wedi'i ddylunio i daro cydbwysedd rhwng sefydlogrwydd â hyblygrwydd, gan alluogi Medr i ymateb i flaenoriaethau gan sicrhau parhad i ddysgwyr a chyflogwyr ar yr un pryd.

10. Yn wahanol i drefniadau comisiynu blaenorol, ni fwriedir defnyddio'r rhaglen a gyllidir drwy grant i brynu lleoedd prentisiaeth yn unig. Yn hytrach, mae'n ceisio sefydlu rhwydwaith o ddarparwyr sy'n gallu cyfrannu at amcanion strategol ehangach Medr a Llywodraeth Cymru drwy gydol cyfnod y grant.

11. Disgwylir i ddarparwyr llwyddiannus ddangos nid yn unig eu gallu i gyflwyno fframweithiau prentisiaeth, ond hefyd eu gallu i gyfrannu at ddeilliannau ehangach sy'n gysylltiedig â llwyddiant dysgwyr, ymgysylltiad cyflogwyr, cynhwysiant cymdeithasol, datblygu'r Gymraeg, twf rhanbarthol a thrawsnewid y gweithlu.

**Beth yw strwythur y Rhaglen Brentisiaethau?**

12. Mae'r Rhaglen Brentisiaethau a gyllidir drwy grant wedi'i threfnu o amgylch tair elfen gyflwyno:

- Elfen 1 - Y Rhaglen Brentisiaethau Graidd - cyflwyno fframweithiau sy'n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig ar lefelau 2-5.

- Elfen 2 - Rhaglen Prentisiaethau Gradd - cyflwyno fframweithiau sy'n arwain at raddau ar lefel 2 a ddyfernir gan brifysgolion.

- Elfen 3 - Rhaglen Prentisiaethau â Chymorth (Mae prentisiaethau â chymorth yn rhoi cefnogaeth ychwanegol i brentisiaid ag anghenion cyflogaeth a dysgu cymhleth, gan eu galluogi i gwblhau eu prentisiaethau'n llwyddiannus.)

13. Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar ofynion cyflwyno pob un o'r elfennau rhaglen hyn ar gael yn:

- Atodiad B - Canllaw Rhaglen Brentisiaethau Graidd Elfen 1
- Atodiad C - Canllaw Rhaglen Prentisiaethau Gradd Elfen 2
- Atodiad D - Canllaw Rhaglen Prentisiaethau â Chymorth Elfen 3

14. Ceir rhestr o dermau fydd o gymorth i ymgeiswyr yn Atodiad H.

**Am ba hyd y bydd y grant yn cael ei ddyfarnu?**

15. Bydd y grantiau cychwynnol yn cael eu dyfarnu am gyfnod o bedair blynedd. Gellir gwneud mân newidiadau i ganllawiau'r rhaglen yn ystod y pedair blynedd cyntaf er mwyn ymateb i amgylchiadau newidiol. Os bydd darparwyr yn parhau i fodloni amodau grant y rhaglen ac yn parhau i gydymffurfio â gofynion fframwaith rheoleiddio Medr, byddant yn parhau i dderbyn buddsoddiad yn dilyn y dyfarniad cychwynnol.

16. Cynhelir adolygiad ffurfiol o'r rhaglen ar ôl pedair blynedd a allai arwain at newidiadau mwy sylweddol; bydd hefyd yn gyfle i ddarparwyr pellach wneud cais am, a derbyn, cyllid grant o dan y rhaglen, yn unol ag amodau'r rhaglen, a'r gyllideb sydd ar gael.

**Beth yw isafswm gwerthoedd y grantiau?**

17. Rhaid i bob darparydd ddangos eu gallu i reoli cyllid grant ar y gwerthoedd gofynnol dangosol canlynol. Defnyddir y ffigurau hyn i asesu cynaliadwyedd ariannol, y capasiti i gyflwyno a'r risg yn gysylltiedig â rhaglenni, ac nid ydynt yn creu unrhyw warant o gyllid, nac o hawl i gael cyllid:

    a) Ar gyfer darparwyr prentisiaeth presennol, rydym yn rhagweld £5m yn flynyddol (byddai hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n parhau a dechreuwyr newydd). Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ddyraniadau cyllideb, felly, nid yw'n hawl gyllidebol warantedig.

    b) I ddarparwyr newydd, na fyddai ganddynt ddysgwyr sy'n parhau, rydym yn rhagweld mai £1.5m fyddai isafswm grant blwyddyn 1. Byddai hyn yn cynyddu'n flynyddol wrth i ddysgwyr barhau â'u prentisiaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ddyraniadau cyllideb, felly, nid yw'n hawl gyllidebol warantedig.

    c) Ar gyfer prentisiaethau gradd, nid oes isafwsm gwerth y grantiau.

    d) Isafswm gwerth y grant ar gyfer yr elfen prentisiaeth â chymorth yw £250k y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ddyraniadau cyllideb, felly, nid yw'n hawl gyllidebol warantedig.

**Beth yw camau'r broses ymgeisio am grant?**

18. Ceir dau brif gam i'r broses o ymgeisio am grant. Rhaid i ddarparwyr basio Cam 1 cyn y gallant gyflwyno eu cais ar gyfer Cam 2.

19. Dyma'r camau:

- **Cam 1 – Cadarnhad bod Ymgeiswyr yn bodloni Amodau Cyllido Medr**

  Bydd angen i bob darparydd a hoffai gyflwyno prentisiaethau yng Nghymru (gallai hyn gynnwys darparwyr presennol neu ddarparwyr newydd, gan gynnwys modelau consortiwm neu sefydliad partner, gan gynnwys modelau is-gontractio) gyflwyno cais drwy ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad A. Mae'r cais yn cynnwys gwybodaeth allweddol am yr ymgeisydd a'i allu i fodloni Amodau Cyllido Medr. Mae'r wybodaeth yn cyd-fynd â'r hyn y gofynnir amdano mewn ceisiadau am y Gofrestr Darparwyr Addysg Uwch.

  Lle bo gwybodaeth ategol eisoes wedi'i chyflwyno i Medr at y diben hwnnw, ni fydd angen i ddarparwyr ei darparu eto, ac ni fydd ond angen iddynt gadarnhau eu hymatebion i'r cwestiynau.

  Mae'r cam cyntaf yn sefydlu a yw ymgeisydd yn gymwys i dderbyn cyllid cyhoeddus drwy gadarnhau ei fod yn bodloni amodau cyllido Medr. Asesiad porth yw hwn ac fe'i asesir ar sail Llwyddo/Methu. Dim ond ymgeiswyr sy'n llwyddo i brofi eu bod yn bodloni amodau cyllido Medr yng Ngham 1 fydd yn gymwys i gyflwyno cais manwl yng Ngham 2, a chael asesiad o'r cais hwnnw. Mae'n ofynnol i bob darparydd gyflwyno gwybodaeth ychwanegol am:

  - y rhanbarthau yr hoffai darparwyr gyflwyno ynddynt;
  - o fewn pob un o'r rhanbarthau, pa sectorau y mae'r darparwyr yn dymuno cyfrannu atynt (fel y nodir ym mharagraff 26);
  - Cadarnhad o drefniadau diogelwch digidol a data;
  - Pa elfen o'r rhaglen y mae darparwyr yn dymuno ymgeisio amdani.

- **Cam 2 – Tystiolaeth o'r modd y byddent yn cyflwyno'r rhaglen brentisiaethau**

  Bydd darparwyr yn darparu tystiolaeth yn erbyn y meini prawf asesu cymeradwy fel y'u nodir yn Atodiad E. Mae Cam 2 yn asesu cais manwl yr ymgeisydd, hynny yw, ansawdd y trefniadau a gynigir gan yr ymgeisydd i gyflwyno'r prentisiaethau yn erbyn gofynion canllaw'r rhaglen. Caiff y cam hwn ei asesu drwy ddefnyddio'r meini prawf cyhoeddedig a'r dull sgorio sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad E i benderfynu pa ddarparwyr a argymhellir fel rhai priodol i dderbyn cyllid grant drwy'r rhaglen.

  Rhaid i bob darparydd ddangos eu profiad o gyflwyno fframweithiau prentisiaeth ar draws ystod o sectorau, a dangos eu bod yn gallu ymateb i flaenoriaethau newidiol. Rhaid i ddarparwyr ddangos sut y byddant yn cyflwyno'r ddarpariaeth ar draws yr holl awdurdodau lleol yn eu rhanbarth (fel y nodir ym mharagraff 26)

neu gyflwyno achos i ddangos sut y byddant yn ehangu eu darpariaeth i sicrhau cwmpas priodol.

Bydd angen i ddarparwyr hefyd ddangos sut y byddant yn sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chyflwyno, gan gynnwys sut y byddant yn cefnogi dysgwyr a chyflogwyr, a sut maent yn bwriadu mynd ati'n weithredol i annog cyflwyno prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Sut mae ymgeisio?**

20. Bydd angen i ddarparwyr wneud cais ar wahân ar gyfer pob un o dair elfen y rhaglen:

- Y Rhaglen Brentisiaethau Graidd (cyflwyno fframweithiau sy'n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig ar lefelau 2-5).
- Prentisiaethau Gradd (cyflwyno fframweithiau sy'n arwain at raddau ar lefel 6 a ddyfernir gan brifysgolion).
- Prentisiaethau â Chymorth.

21. Cwblhewch yr holl gwestiynau perthnasol ar y ffurflen gais yn Atodiad A.

**Pa sefydliadau a all ymgeisio?**

22. Gall sefydliadau ymgeisio os ydynt yn gallu dangos y trefniadau llywodraethu, cyfreithiol ac ariannol a'r gallu gweithredol sydd ei angen i gyflwyno darpariaeth prentisiaethau yng Nghymru.

23. Gall sefydliadau cymwys gynnwys:

- Sefydliadau Addysg Bellach (Elfen 1 a 3)
- Sefydliadau Addysg Uwch (Elfen 1 a 2)
- Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol (Elfen 1 a 3)
- Sefydliadau Elusennol a Di-elw (Elfen 1 a 3)
- Sefydliadau'r Sector Cyhoeddus (Elfen 1 a 3)
- Partneriaethau Cydweithredol a Chonsortia (Elfen 1 a 3)

24. Nid yw cyfranogiad yn y rhaglen wedi'i gyfyngu i sefydliadau sydd eisoes yn cyflwyno prentisiaethau yng Nghymru yn unig. Fodd bynnag, disgwylir i sefydliadau nad ydynt eisoes yn gweithredu o fewn system brentisiaethau Cymru ddangos sut y byddant yn sefydlu'r seilwaith angenrheidiol, y trefniadau llywodraethu, y perthnasoedd â chyflogwyr a'r gallu i gyflenwi sy’n angenrheidiol i fodloni gofynion y rhaglen, gan gynnwys safleoedd yng Nghymru a'r gallu i ymdrin â datblygiadau darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Faint o ddarparwyr fydd yn derbyn grant?**

25. Mae Medr yn annog trefniadau cydweithredol, gan gynnwys modelau consortiwm neu sefydliad partner, gan gynnwys modelau is-gontractio ar gyfer darparwyr sy'n

gwneud cais i gyflwyno holl elfennau'r rhaglen, gan adeiladu ar y model cyflwyno presennol. Bydd hyn yn sicrhau bod dyfarniadau grant ar raddfa ddigonol i gwmpasu pob sector a rhanbarth yng Nghymru ac yn cefnogi darpariaeth prentisiaethau o safon. Rhagwelwn y bydd yr uchafswm canlynol o ddarparwyr yn derbyn grant ar gyfer pob elfen:

- 15 o ddyfarniadau grant i ddarparwyr am gyflwyno fframweithiau sy'n ymwneud â chymwysterau rheoleiddiedig ar gyfer Elfen 1.
- 9 dyfarniad grant i brifysgolion er mwyn cyflwyno Prentisiaethau Gradd ar gyfer Elfen 2.
- 3 dyfarniad grant ar gyfer Prentisiaethau â Chymorth ar gyfer Elfen 3.

**Beth yw'r rhanbarthau?**

26. Mae Medr yn cynnig cadw'r strwythur rhanbarthol presennol, fel yr amlinellir yn y tabl isod. Mae lleoliad y ddarpariaeth wedi'i seilio ar gyfeiriad y cyflogwr.

| Rhanbarth y Gogledd | Y Canolbarth | Rhanbarth y Gorllewin | Rhanbarth y Dwyrain |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Powys | Sir Benfro | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Gwynedd | Ceredigion | Sir Gaerfyrddin | Bro Morgannwg |
| Conwy | | Abertawe | Rhondda Cynon Taf |
| Sir Ddinbych | | Castell-nedd Port Talbot | Merthyr Tudful |
| Sir y Fflint | | | Caerffili |
| Wrecsam | | | Blaenau Gwent |
| | | | Torfaen |
| | | | Sir Fynwy |
| | | | Casnewydd |
| | | | Caerdydd |

**Beth yw'r Sectorau a'r Llwybrau Prentisiaeth?**

27. Mae’r fframweithiau sector a’r llwybrau prentisiaeth presennol wedi'u hamlinellu yn Atodiad G. Gall y llwybrau a'r lefelau newid wrth i fframweithiau gael eu hadolygu a llwybrau newydd gael eu datblygu, a bydd pob newid ar ôl Awst 2027 yn cael ei gyhoeddi yn y Llyfrgell Fframweithiau Prentisiaeth.

**Beth yw blaenoriaethau presennol y rhaglen brentisiaethau o ran sectorau?**

28. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei sectorau allweddol â blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen brentisiaethau yn 2026/27. Dyma'r sectorau â blaenoriaeth:

- Gweithgynhyrchu a pheirianneg uwch - Cefnogi gweithlu gweithgynhyrchu gwydn ac uchel ei werth sy'n cyd-fynd â Chymru 4.0.

- Adeiladu (gan gynnwys datgarboneiddio ac ôl-osod, a'r Prentisiaethau Adeiladu Lefel 2 newydd) - Meithrin sgiliau i gefnogi'r gwaith o ddarparu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel a blaenoriaethau ôl-osod.
- Digidol a Thechnoleg (gyda ffocws ar seiberddiogelwch a Deallusrwydd Artiffisial) - Datblygu sgiliau digidol a seiber i gefnogi ymateb Cymru i newid technolegol cyflym.
- Gwyddorau Bywyd - Cefnogi twf a sgiliau yn sgil arloesi yn y sectorau iechyd, llesiant a gwerth uchel.
- Ynni Glân - Adeiladu'r cyflenwad o sgiliau sydd ei angen i wireddu uchelgeisiau sero net Cymru.
- Creadigol - Datblygu a chynnal talent creadigol yn unol â blaenoriaethau sgiliau Cymru Greadigol.
- Amddiffyn a Niwclear - Cefnogi sgiliau arbenigol sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad hirdymor mewn seilwaith strategol ac ynni.

**Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?**

29. Y dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau yw:

    - Cam 1 – 02 Hydref 2026
    - Cam 2 - 31 Rhagfyr 2026

**I le y dylid anfon y cais?**

30. Ar ôl llenwi'r ffurflenni cais, dylech eu hanfon i: CaisGrantPrentisiaeth@medr.cymru.

**Pryd fyddwn ni'n cael gwybod y canlyniad?**

31. Byddwch yn cael gwybod canlyniad y camau canlynol erbyn:

    - Cam 1 – 31 Hydref 2026
    - Cam 2 – 31 Mawrth 2027

**Beth yw'r meini prawf asesu?**

32. Mae'r broses asesu wedi'i chynllunio i sicrhau bod ymgeiswyr yn dangos eu bod yn bodloni Amodau Cyllido Medr cyn asesu ansawdd eu cynigion. Dim ond ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion Cam 1 yn llwyddiannus fydd yn gymwys i gael eu hasesu yng Ngham 2.

33. Bydd yr holl geisiadau'n cael eu dadansoddi a'u hasesu drwy system sgorio. Amlinellir y Fframwaith Asesu a Sgorio yn Atodiad E.

34. Amlinellir y Daith Asesu isod:

| Cam | Pwrpas | Dull Asesu | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Cam 1 – Cadarnhau bod Ymgeiswyr yn bodloni Amodau Cyllido Medr | Yn cadarnhau cymhwystra a chydymffurfiaeth y sefydliad â gofynion gorfodol. | Llwyddo / Methu | Mae ymgeiswyr sy'n bodloni Cam 1 yn gymwys i gael eu hystyried ar gyfer asesiad Cam 2 |
| Cam 2 – Tystiolaeth o'r gallu i gyflwyno'r rhaglen brentisiaethau | Yn asesu ansawdd, gallu a darpariaeth y cynigion a gyflwynwyd yn y Cais am Grant. | Asesiad Grant wedi'i Sgorio | Ystyrir dyfarnu grant i geisiadau sy'n bodloni'r gofynion asesu perthnasol. |
| Cam 3 – Dyrannu Cyllid Grant | Yn ystyried canlyniadau asesiadau ochr yn ochr â'r cyllid sydd ar gael, blaenoriaethau strategol ac amcanion y rhaglen. | Penderfyniad Dyrannu | Dyfarnu Grant (lle bo'n berthnasol). |

35. Bydd panel o staff Medr ac arbenigwyr asesu grantiau annibynnol yn cynnal yr asesiad.

### Pryd fydd y grant yn cael ei ddyrannu?

36. Bydd Medr yn cadarnhau a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus erbyn 31 Mawrth 2027. Gwneir y dyraniadau cyn gynted ag y bo llythyrau dyfarnu grantiau wedi'u cyhoeddi fel rhan o broses gyllidebu Medr.

### Beth yw'r broses apelio?

37. Gall ymgeiswyr apelio os ydynt yn credu'n rhesymol y gallai gwall gweithdrefnol, gwall gweinyddol neu achos o wrthdaro buddiannau fod wedi effeithio ar ganlyniad eu hasesiad i raddau sylweddol.

38. Amlinellir y broses apelio yn Atodiad F.

### Ymhle y gellir cael gwybodaeth bellach?

39. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwestiynau pellach ynglŷn â llenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â CaisGrantPrentisiaeth@medr.cymru.

40. Cynhelir digwyddiad gwybodaeth ar-lein am 11:00 ar 8 Medi 2026 ar gyfer darparwyr posibl sydd â diddordeb mewn cyflwyno cais i gyflwyno'r Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru. Gellir archebu lle yn y digwyddiad drwy Eventbrite.

41. Bydd pob cwestiwn ac ateb yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau prentisiaeth Medr i sicrhau tryloywder.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government